

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN

COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS LUN, 4 IONAWR 2016.

Presennol : Y Cynghorydd Glyn Griffiths – Is-Gadeirydd yn y Gadair.

Y Cynghorwyr R V Roberts, Dafydd Watts, Llio Griffiths, R P Jones.

Ymddiheuriadau : Y Cynghorwyr Nia Povey, Ifor Jones, Nyfain Wyn'

COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2015.

CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn rhoddi manylion o weithgareddau y dymunir eu trosglwyddo i Gynghorau cymuned.

Penderfynwyd ei dderbyn.

BINIAU HALEN

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu na fyddai unrhyw oblygiadau cyfreithiol i'r Cyngor hwn gan y byddai'r ased yn aros ar Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd derbyn yr egwyddor o ysgwyddo'r gost o gynnal y biniau presennol o fewn y gymuned.

GRID CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd llythyr y Grid Cenedlaethol y trefnir i gryfhau'r llinell rhwng pentir a Thrawsfynydd ac y cyflwynir mwy o fanylion yn nes ymlaen.

CYNLLUN GWELLA IS-ADEILADEDD Y GRID CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd llythyr awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn hysbysu fod cyllideb o £24 miliwn wedi ei glustnodi I'w wario dros y pum mlynedd nesaf er mwyn lliniaru effaith ar diroedd o fewn Parciau Cenedlaethol. Gwahoddwyd y Cyngor I gyflwyno sylwadau ar y mater.

Penderfynwyd (a) Gwahodd Pennaeth Cadwraeth Coed ac Amaethyddiaeth yr Awdurdod I gyfarfod nesaf y Cyngor b) Rhoddi gwahoddiad I Aelodau Cyngor Tref Penrhyndeudraeth I'r cyfarfod.

BWS CYMUNEDOL

Cyflwynwyd llythyr Dafydd Elis Thomas A.C. yn rhoddi manylion ynglŷn â'r gallu i ddefnyddio tocynnau teithio'r henoed ar y gwasanaethau a ddarperir gan Fysiau Cymunedol. Penderfynwyd ei hysbysebu Fod y Cyngor yn siomedig na ellir defnyddio'r tocynnau ar y bysiau cymunedol a bod hyn yn creu annhegwch yn yr ardaloedd gwledig gan y bydd y tocynnau hyn yn ddiwerth yn yr ardaloedd hyn.

SWYDDFA BOST SYMUDOL

Cyflwynwyd llythyr Liz Saville Roberts ei body n cefnogi cais y Cyngor am wasanaeth Swyddfa Bost Symudol yn Llanfrothen a'i bod wedi anfon llythyr at y Swyddfa Bost yn datgan hynny. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

HYRWYDDO GWARCHOD CYMDOGAETH

Cyflwynwyd llythyr Heddlu Gogledd Cymru yn rhoddi manylion o'r ymgyrch i hyrwyddo cynllun Gwarchod y Gymdogaeth. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

GWASANAETH BWS CYMUNEDOL

Cyflwynwyd adroddiad y bwriedir anfon holiadur i bob tŷ yn y gymuned yn holi beth yw angen y trigolion mewn perthynas â Thrafnidiaeth Gyhoeddus. Byddai peth costau ynglŷn â hyn a datganwyd cefnogaeth i gyfrannu os bydd angen.

Penderfynwyd a) Pwyso ar Gyngor Gwynedd I barhau'r gwasanaeth presennol am o leiaf flwyddyn ychwanegol drwy arall gyfeirio'r bysiau o Borthmadog I Feddgelert I alw yn Llanfrothen. b) Holi beth oedd y gost I Gyngor Gwynedd o'r arall gyfeirio. c) Gwneud cais I Gyngor Tref Penrhyndeudraeth weithredu'r un modd.

PRISIAU CLADDU YN Y FYNWENT

Cyflwynwyd manylion o'r taliadau sydd yn weithredol ar hyn o bryd.

Penderfynwyd fod y prisiau i aros fel y maent.

PRAESEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN 2016/2017.

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar y pryd ynghyd ac amcangyfrif o'r anghenion ar gyfer y flwyddyn. Atgoffwyd yr Aelodau efallai y bydd yn ofynnol i'r Cyngor fod yn gyfrifol am ariannu peth gwaith a wneir gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd.

Penderfynwyd gwneud praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017 - £5,300.

GWASANAETH Y SWYDDFA BOST SYMUDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc iddo dderbyn galwad ffôn gan swyddog o'r Swyddfa Bost yn hysbysebu eu bod yn gwneud eu gorau i'r Gwasanaeth ymweld â Llanfrothen. Yr oedd y Gwasanaeth ar hyn o bryd heb le gwag ond yr oeddynt yn ceisio lleihau'r oriau a ddarperir mewn ardal arall. Penderfynwyd bod y Clarc yn gohebu ymhellach a'r Swyddfa Bost gan eu hysbysu mai'r trefniant gorau ym marn y Cyngor fyddai adfer y gwasanaeth yn ôl I Siop y Pentref.

Y WE

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Llio Griffiths a'r Clarc are u trafodaeth gyda Marian Roberts ynglŷn â darparu Cofnodion ar y We.

Penderfynwyd gohirio ystyriaeth hyd y cyfarfod nesaf.

CEISIADAU AM GYFRANIADAU 2016

Cyflwynwyd rhestr o'r ceisiadau oedd i law.

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn :-

Ysgol y Garreg - £150

Yr Wylan - £50

Penderfynwyd hefyd wneud cyfraniad o £30 I Glyn Griffiths am gael defnyddio ei faes parcio ar gyfer angladdau. (Datganwyd diddordeb yn yr eitem hon gan y Cynghorwyr Glyn Griffiths a Llio Griffiths).

BILIAU

Penderfynwyd talu'r biliau canlynol :-

Geiriau Gwyn - £117.76

Norman Kerr - £370.00

Cymdeithas y Clarcod – Aelodaeth £48.00

Ifan Williams - £80.00

K Williams - £592.23

Argraffwyr Eryri - £67.20

Scottish Power - £23.47

CAIS CYNLLUNIO

Cyflwynwyd cais i adeiladu tŷ amaethyddol ar dir yn Tŷ Mawr, Llanfrothen.
Penderfynwyd cefnogi'r cais.

Cymerwyd y Gadair am yr eitem hon gan Y Cynghorydd Dafydd Watts.

(Datganwyd diddordeb yn yr eitem hon gan Y Cynghorwyr Glyn Griffiths a Llio Griffiths)

COED YN Y FYNWENT

Adroddwyd fod angen tocio rhai o'r coed yn y fynwent gan eu bod yn amharu ar y cerrig beddau yn y rhan isaf.

Penderfynwyd gofyn i R Pearson roddi sylw iddynt.

AROLWG CYFLYMDER TRWY LANFROTHEN

Penderfynwyd gwneud cais i Adran Ffyrdd Cyngor Gwynedd beth oedd canlyniad yr arolwg cyflymder drwy'r pentref.